Cyflwyniad i Fro Hiraethog

Casgliad o bentrefi a ffermydd yn ucheldir Sir Conwy, ar gyrion Mynydd Hiraethog yw'r ardal hynafol hon, ac yn gorwedd yng nghanol 'y berfeddwlad', sef y tirioedd rhwng Dyffryn Clwyd a Dyffryn Conwy. Ar gyfer y prosiect yma, sut bynag, does ond pedwar plwyf wedi ymuno, sef Llannefydd, Llangernyw, Llansannan a Nantglyn. Ceir hanes hynod diddorol i bob un o'r hen bentrefi, lle gellir ymffrostio y magwyd dynion a merched talentog a ddaeth yn enwog mewn nifer o wahanol feusydd.

Os ewch yn ôl i'r pedwarydd ganrif a'r byntheg, mi welech ardal ddiaffordd, yn frith o ffermydd bach, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn eiddo i'r gwahanol ystadau oedd yn bod yr amser hynny. Mi welech hefyd ffyrdd culion yn llawn elltydd yn arwain i nifer o bentrefi bach a mwy, wedi eu gwasgaru yma ac acw mewn tirlun amrywiol ac hynod o hardd. Mi welech ardal gyda hen eglwys mewn saith o'r prif bentrefi, ond llawer mwy o capeli anghydffuriwyr, eto wedi eu gwasgaru i wasanaethu y gwahanol gymunedau bywiog o fewn y plwyfi.

Yn nechrau'r 1824, adeiladwyd ffordd holl bwysig o Ddinbych drwy'r Groes, Bylchau a thros Fynydd Hiraethog i ymuno a'r A5 ym Mhentrefoelas. Hefyd yn 1927 adeiladwyd ffordd newydd o'r Bylchau i Llanfair Talhaearn, gan wneud teithio i mewn ac allan lawer rhwyddach.

Fel awgryma testyn ein prosiect, 'Cynefin y Bonedd a'r Weri', un o nodweddion amlycaf Bro Hiraethog, yn yr oes a fu, fel yn wir mewn nifer fawr o ardaloedd gwledig eraill, yw bod cynifer o ystadau cyfoethog y tirfeddianwyr yn berchen ar y rhan fwyaf o dir amaethyddol y fro. Fel engrhaifft o hyn gellir cyfeirio at Ystad Wynne Yorke yn Nyffryn Aled oedd berchen ar 4,356 o aceri, gyda 65 o denantiaid, yn ceisio ennill eu bywoliaeth drwy gyfnodau gweddol sefydlog a thrwy gyfnodau o ddirwasgiad difrifol i'r ffermwyr a'u teuluoedd. Ceir ystadau fel y Maceson Sandbatch, Hafod Unos yn Llangernyw, Plas Nantglyn yn ardal Nantglyn, Ystad Llewesog, eto yn ystad anferth. Ystad Cefn yn ardal Llanefydd, i enwi ond pump.

Nodwedd arall bwysig yn ein hardaloedd gwledig oedd twf anghydffurfiaeth, gyda adeiladu capel y Methodistiaid yn 1772, oedd ymysg y rhai hynaf yng Ngogledd Cymru. Roedd Eglwysi Plwy yn lawer hynnach, wrth reswm, gydag hen eglwysi yn Nantglyn, Bylchau, Llansannan, Llannefydd, Llangernyw, Pandy Tudur a Gwytherin, ac arwahan i'r ddwy olaf, meant yn agored o hyd i wasanaethau ar y Sul, er mai ychydig o'r ffyddloniaid sydd ar ôl. Yr eglwysi hefyd oedd yn gyfrifol am godi'r ysgolion hynaf ym mhob un o'r pentrefi, ond sydd bellach wedi hen gau ac wedi eu newid yn dai annedd. Er bod yn agos i ugain o gapeli yr anghydffurfwyr, mae llawer iawn o rheini hefyd wedi cau yn ystod 30 mlynedd diwethaf.

Gellir dim son am Fro Hiraethog yn yr hen amser, heb gyfeirio at y Degwm, lle roedd Eglwys Lloegr wedi cael deddf gwlad i sicrhau bod bob deiliad tir amaethyddol i dalu 10% o'u henillion, tuag at gadw y ficeriaid a'r esgobion yn eu bywyd moethus. Er mai nifer fach iawn o'u haelodau oedd yn eglwywyr, gyda rhelyw y trigolion yn mynychu'r capeli a adeiladwyd ym mhob ardal a chymuned. Gwelodd y pedwaredd ganrif a'r bymtheg lawer iawn o wrth-dystio yn erbyn taliadau'r Degwm, a hynny am ddau brif reswm, Roedd yn gyfnod o ddirwasgiad ym myd amaethyddol, gyda y mwyafrif o'r ffermwyr, prin yn medru cadw eu pennau uwch y dŵr, ac hefyd yn gorfod talu rhent y fferm, ac ar ben hynny y degwm hefyd.

Medrwn wneud fawr gwell na dyfynu rhan o erthygl am James Davies Nant y Merddyn Uchaf, fferm fynyddig, ar gyrion Mynydd Hiraethog. Adnabyddir Mr Davies, fel ffermwr cadarn ei farn ac yn gymydog da i bawb yn y cylch. Ni chytunai a'r degwm, a gwnaeth popeth o fewn ei allu i wrthod y taliad blynyddol i drysorydd yr Eglwys. Cofnodwyd yr hanesyn yma yn y Baner ac Amserau Cymru, Mai 2ail. 1894. Pryd mynnai y beiliaid gyrchu buwch o eiddo Mr Davies, ei cherdded i Henllan ac yna i Ddinbych y diwrnod wedyn. Am ddau o'r gloch y pnawn, roddwyd y fuwch i ocsiwn, a chael y cynnig uchaf o £6 :50swllt amdani, lle byddai'r fuwch yn werth heb fod ymhell o ganpunt i incwm y fferm. Ar ôl y gwerthiant casglodd y dorf wrth hen Neuadd y Dref a chynnal cyfarfod dan gadeiryddiaeth Thomas Gee, perchennog y papur newydd y Faner ac yn ladmerydd pwerus yn erbyn y Degwm:-

"*Wedi ymadawiad y fuwch, cynaliwyd cyfarfod yn ddioed ar yr Heol Fawr, ar dalcen Neuadd y Dref – ar yr hwn*

*dewiswyd Mr Gee yn gadeirydd. Yn ystod ei araeth, dywedodd y fod yn angenrheidiol cael rhyw ddatganiad ar ran y cyfarfod, yn wyneb yr amgylchiadau a arweiniasant i'r hyn a gymerodd le y diwrnod hwnw; ac fel cadeirydd y cyfarfod, cynnygiodd y penderfyniad canlynol*:-

"*Fod y cyfarfod hwn o'r farn y dylid Dadsefydlu a Dadwaddoli Eglwys Lloegr yng Nghymru yn ddioed, yn gymaint a'i bod, fel sefydliad Eglwysig, yn anghyson ag egwyddorion gwir ryddid gwladol a chrefyddol, nad ydyw yn ateb diben ei sefydliad, a'i bod yn orthrwm annioddefol ar y trigolion, ac yn dylanwadu er niwed dirfawr i Gristionogaeth yn y wlad yn y modd y mae hi yn casglu cyflog ei gweinidogion*."

*Dywedodd Mr Gee fod ganddo amryw o ffeithiau pwysig y tybiau y dylid eu cyflwyno i sylw y cyfarfod, gan eu bod yn dwyn perthynas â'r hyn oedd newydd gymryd lle. Ac yn neilltuol fel eglurhad ar sefyllfa yr Eglwys ac Ymneillduaeth ym mhlwyf Llansannan.*

*Yn 1891, meddai, yr oedd poblogaeth y plwyf hwn yn 1,133; ac yr oedd y plwyf yn cynnwys 15,545 o erwau. Yr oedd hyn yn gwneud yn agos i 25 o filltiroedd sgwâr. Yr oedd y degwm yr holl blwyf yn £656 punt yn y flwyddyn. Yr oedd y swm hwn yn cael ei rannu yn y modd a ganlyn;- Yr oedd esgob Llanelwy yn cael un bunt a'r bymtheg o hono (Llais;- Am pa beth, tybed?). Yr oedd y Dirprwywyr Eglwysig yn cael £220 punt. Y oedd rheithor a ficer Llansannan yn cael £413 punt, heb law ficerdy helaeth a chysurus; ac yr oedd Rheithor Gwytherin yn derbyn saith bunt; a dyna fel y rhenid y £656 punt o ddegwm y plwyfolion bob blwyddyn (clywch, clywch). Ffaith hynod arall ydyw, nad oedd yn y plwyf mawr hwn, ond un eglwys o gwbl, er mor fawr oedd y plwyf. Hen eglwys ydyw hon, a adeiladwyd rhwng pump a chwe-chan mlynedd yn ôl. A dyma ffaith hynod arall, meddai, ni wnaeth yr Eglwys Sefydledig bresennol ddim oll er chwanegu at gyfleusterau trigolion y plwyf i addoli yng nghorff y canrifoedd diweddaf. Ni wariodd gymaint a ceiniogau er dyddiad ei hadeialadu.*

*Y Sabath diwethaf, cyfrifwyd y rhai oedd yn bresnnol yn yr eglwys a'r capelau. Cafwyd fod yn nhri gwasanaeth y capeli gyda'u gilydd gynnifer a 1,129 o bersonau, tra nad oedd yn nhri gwasanaeth Cymreig yr Eglwys ond 88."*

Oherwydd yr helyntion yn erbyn talu'r degwm, llwyddodd trysoryddion yr eglwys i gael y tirfeddianwyr i gynnwys cyfraniad y degwm fel ychwannegiad at rent y fferm, gyda'r canlyniad y byddai'r ffermwr yn cael ei droi allan o'r fferm os na delir y cyfan. Yn naturiol, allent ond gwneud hynny lle roedd y ffermydd yn rhan o'i heiddo.

Ochr arall i'r geiniog, oedd y rhelyw o'r 'werin' yn hanes y Fro. Cyfeirir atynt yn aml fel y 'werin ddiwylliedig a ffraeth', ac yn eu ymysg ceir unigolion sydd wedi datblygu yn ysgolheigion, yn feirdd ac yn arbenigwyr mewn sawl maes arall. Dylid enwi'r pump sydd ar gôfgolofn Gosgomb John, sydd i'w gweld ar sgwar, pentref Llansannan, heb anghofio John Evan Morris, Llety'r Eos, ddaeth yn un o wŷr busnes mwyf llwyddianus Lerpwl, ond wedi cychwyn ei yrfa yn Tŷ Iorwerth, siop bwysig yn ei dydd oedd yn ateb holl ofynion yr ardal. Teulu arall ym myd busnes oedd Mars Jones, oedd a un mab yn enwog ym myd y gyfraith yn Llundain. Mae pob un o'r pentrefi wedi magu amryiol enwogion tebyg.

Ni fyddai'r darlun am Fro Hiraethog yn gyflawn heb gyfeirio ychydig at y gwahanol bentrefi eraill o fewn y pedair plwyf:-

**Gwytherin**:- Saif plwyf Gwytherin yng nhesail Mynydd Hiraethog gyda dau ddarn o'r mynydd yn ymestyn hyd ochrau pen ucha'r plwyf, fel dwy fraich yn ei gofleidio. Yng Nghors Graianog, i fynu ar y mynydd, mae tarddiad yr Afon Cledwen sy'n llifo drwy ganol y plwyf yma i lawr am Langernyw cyn ymuno â'r Afon Elwy.

Diolch i ddyfodiad y Santes Gwenffrewi yma yn ystod y seithfed ganrif, gwybyddwn bod Gwytherin yn hen blwyf yn dyddio'n ôl i beth amser cyn hynny. Cofnodwyd bod yr Abad Elerius wedi mynd peth o'r ffordd i'w chyfarfod gan roi lletty iddi y noson honno cyn iddi fynd ymlaen ar ei thaith y bore wedyn. Credwn felly bod eglwys a mynaich yma'n barod ac mai at y lleandŷ uwchben Tai Pella yr oedd hi'n anelu. Mae pedair carreg fawr hynafol ac unionsyth yn y fynwent gydag arysgrifen lladin ar un yn dweud "VINNEMAGLI FILI SENEMAGLI" sef Gwynfael ap Henfael.

Gan ei fod yn blwyf mor anghysbell, mae'r Gymraeg dal yn gryf iawn yma.  Er bod dipyn o Saeson erbyn hyn yn byw yn y pentref, y cymru sydd yng ngofal bob un o'r ffermydd.

**Pandy Tudur**:- Lleolir Pandy Tudur ar gyrion eithaf dalgylch yr afon Clwyd a'r Elwy, rhyw 5 milltir o Lanrwst. Rhan uchaf plwyf eglwysig Llangernyw, sef Blaenau Llangernyw, oedd ardal Pandy Tudur yn wreiddiol. Rhywbryd fe godwyd pandy ar yr afon Derfyn i lanhau'r brethyn oedd wedi'i wau o wlân lleol, a datblygodd pentref bychan o gwmpas y pandy.

Ardal amaethyddol ydyw a'r ffermydd yn cadw gwartheg a defaid, gyda rhai buchesi llaeth. Mae'r tir yn codi o tua 550' i 1200' gyda glawiad gweddol uchel yn sgil agosatrwydd at fynyddoedd Eryri.

Caewyd yr ysgol (a godwyd gan y trigolion yn 1848) yn 1969 gyda phlant Gwytherin, Llangernyw a Phandy Tudur yn ymuno mewn ysgol newydd a adeiladwyd yn Llangernyw, sef Ysgol Bro Cernyw.

Cymraeg yw prif iaith yr ardal, ac er bod mewnlifiad di-Gymraeg wedi dod i rai o'r tai lleol, nid yw wedi effeithio cymaint â hynny ar y diwylliant Cymreig. Mae'r capel yn parhau ar agor, ac ychydig flynyddoedd yn ôl adeiladwyd estyniad i gynnwys cegin newydd a thoiledau, ac fe ddefnyddir y festri fel canolfan i gyfarfod yn y pentref.

**Llangernyw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.** (Ann, Bryn Gwylan)

Mae Llangernyw yn bentref bychan gwledig yn Sir Conwy ar y ffordd A548 o Abergele i Lanrwst. Ceir croesffordd yng nghanol y pentref yn arwain i Eglwysbach a Llansannan. Ceir tafarn, siop, siop henebion  a gwaith cerrig coffaol yma. Mae yna 3 chapel,  Eglwys gyda choeden ywen hynafol yn y fynwent, Canolfan Addysg Bro Cernyw ac Amgueddfa. Mae'n ardal amaethyddol. Ceir 3 afon Gallen, Collen, Cledwen yn uno ger Bont Faen ac yn cael ei galw'n Elwy o'r fan yma i'r môr. Mae'r ardal yn frith o enwogion a'r enwocaf oedd Syr Henry Jones.

**Nantglyn**:- Lleolir Nantglyn rhyw bedwar a hanner milltir i'r De Orllewin o hen dref hynafol Dinbych. Yn yr hen ddyddiau saif ar groesffordd bwysig ac yn hanfodol fel man aros noson i'r pererinion oedd ar eu ffordd dros Fynydd Hiraethog, a thrwy Ysbyty Ifan i Ynys Enlli. Ceir cyfeiriad at rhyw fath o Gell neu Eglwys yn dyddio ôl 700 mlynedd, Bellach pan adeiladwyd y ffordd rhwng Dinbych i Bentrefoelas, heibio'r Groes, Y Bylchau, collodd Nantglyn ei bwysigrwydd.
Roedd yr hen bentref yn ddibynol ar, ac yn gwasanaethu amaethwyr y fro. Gyda'r afon Lliwen yn hollti'r pentref rhwng yr hen ar newydd, a does fawr o newid wedi digwydd i adeiladwaith y pentref er pan codwyd yr hen dai cerrig ochr uchaf i'r afon, na'r rhai mwy diweddar gan y Cyngor.
Wrth ddarllen hen hanes am Nantglyn a'r cylch, ceir darlyn o gymuned brysur, ac unwaith eto fel y pentrefi eraill ein talgylch, wedi magu rhai o fawrion ein cenedl.

**Llannefydd**:- Er i leoliad Llannefydd fod yng nghefn gwlad, mae'r olygfa i lawr at glannau'r môr yn eithriadol pan fo'r tywydd yn glir. Saif y pentref rhyw chwech milltir i'r Gorllewin o Ddinbych, ac unwaith eto, yn yr oes a fu yn ddibynol ac yn gwasanaethu ardal amaethyddol, sydd a'i gwreiddiau yn hynafol iawn. Wrth grwydo'r drwy'r plwyf, dewch ar draws hen ffermdai o safon, gyda Berain a Plas Uchaaf, ddau yn Gradd 2. yn engrhaifftiau clasurol.

Cysegrwyd yr Eglwys, Gradd 1 i Sant Nefydd a'r Forwyn Fair, gydag eglwys yma er y 5ed. Ganrif. Er i'r gynilleida ddirywio am gyfnod yn ddiweddar, mae mewn fudwyr wedi rhoi bywyd newydd iddi.
Yn ei lyfr cynhwysfawr ar hanes yr ardal dywed Gwyn Jones yn 'Etifeddiaeth Bro', bod ardal Llannefydd hefyd wedi magu unigolion o bwys i'r ardal ac i Gymru. Yma magwyd llenorion, pregethwyr ac enwogion y cyfeirwyd atynt yn llyfryddiaeth ni'r Cymru. Gellir son am Twm o'r Nant, a fagwyd yn Penporchel ond symudodd y teulu i Nant Isa Groes pan yn Ifanc Iawn. Gellir cyfeirio at Iolo Goch, William Roberts, gweinidog pur enwog, â'r rhestr ymlaen.